# Adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru – cylch gorchwyl

## Diben

Mae gan gyrff llywodraethu yng Nghymru ystod eang ac amrywiol o gyfrifoldebau sy'n cael eu nodi mewn deddfwriaeth ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Maent yn chwarae rhan ganolog yn y system ysgol, gan gefnogi dysgwyr a staff ysgolion. Mae'r system ysgolion yng Nghymru wedi gweld newidiadau enfawr dros y degawd diwethaf, gyda dyletswyddau ychwanegol neu ddiwygiedig yn cael eu gosod ar gyrff llywodraethu, ond nid yw rôl cyrff llywodraethu ysgolion wedi newid mewn unrhyw ffordd sylfaenol

Mae awdurdodau lleol a Chomisiynydd Plant Cymru wedi galw am adolygiad o gyrff llywodraethu yng Nghymru.

Bydd adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru yn cael ei gynnal gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad yn cael ei gefnogi gan grŵp cyfeirio i ddarparu gwybodaeth, barn a chyngor. Bydd yn:

- ystyried canfyddiadau ac argymhellion gwaith blaenorol a wnaed yn y maes hwn, gan gynnwys adolygiad thematig Estyn yn 2023
- darparu cyngor a her ar gwmpas, methodoleg a chanfyddiadau ac opsiynau sy'n dod i'r amlwg
- gweithredu fel ffrind beirniadol, gan sicrhau bod yr adolygiad yn gytbwys, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol
- sicrhau bod aelodau'n cynrychioli safbwyntiau eu sector/sefydliad ac yn cyfrannu at gonsensws
- cefnogi cydlyniant a hygrededd argymhellion, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â diwygiadau addysg ehangach
- cyfrannu at nodi risgiau, cyfleoedd a goblygiadau ymarferol ar gyfer gweithredu.

Bydd y grŵp cyfeirio yn gynrychioliadol o'r sector ysgolion yng Nghymru ac ni fydd yn gwneud penderfyniadau neu argymhellion polisi, ond bydd yn darparu mewnbwn i lywio opsiynau a chamau gweithredu posibl ar gyfer y gwaith.

## Cwmpas

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar effeithiolrwydd, atebolrwydd, priodoldeb a mecanweithiau cymorth cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys sut mae hyn wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.

Wrth wneud hynny, ac wrth edrych ar yr ystod lawn o gyfrifoldebau a roddir i gyrff llywodraethu, bydd y themâu canlynol yn cael eu trafod:

- Strwythur a rolau

    - Cyfansoddiad y cyrff llywodraethu (cynrychiolaeth rhieni, staff, cymuned, enwebai o'r awdurdod lleol, ac ati)
    - Eglurder a phriodoldeb rolau a chyfrifoldebau rhwng llywodraethwyr, penaethiaid ac awdurdodau lleol
- Effeithiolrwydd ac effaith
    - Sut mae cyrff llywodraethu yn cyfrannu at godi safonau addysgol
    - Ansawdd yr her a'r gefnogaeth a ddarperir i arweinwyr ysgol
    - Effaith ar welliant ysgolion a chanlyniadau dysgwyr
- Cymorth a hyfforddiant
    - Argaeledd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd hyfforddiant a chanllawiau i lywodraethwyr
    - Ansawdd y clercio a'r cymorth gweinyddol
    - Cysondeb y cymorth ar draws gwahanol awdurdodau lleol a rhanbarthau
- Atebolrwydd a goruchwylio
    - Cydymffurfio â dyletswyddau statudol (diogelu, cyllid, cwricwlwm, cynhwysiant)
    - Sut mae cyrff llywodraethu yn cael eu dal i gyfrif gan awdurdodau lleol, Estyn a Llywodraeth Cymru
- Recriwtio a chadw staff
    - Y broses ar gyfer recriwtio llywodraethwyr (gan gynnwys amrywiaeth a chynrychiolaeth)
    - Cadw staff, llwyth gwaith a rhwystrau i gyfranogiad effeithiol
- Arferion gorau ac arloesedd.
    - Enghreifftiau o gyrff llywodraethu perfformiad uchel ac arferion arloesol
    - Cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion a chyrff llywodraethu

**Yr amserlen**

Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn cymryd tua 6-9 mis gyda'r nod o ddarparu adroddiad i Weinidogion Cymru erbyn haf 2026.